# Peter Price - Aelod y Bwrdd dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Yn amlinellu hanes proffesiynol ein Haelodau Bwrdd ac yn rhoi manylion unrhyw fuddiannau busnes a allai fod ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.



Ar ôl 12 mlynedd yn gweithio yn y meysydd ymarfer cyfreithiol a darlledu, gwasanaethodd Peter yn Senedd Ewrop am 15 mlynedd, gan gynnwys fel Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Cyllidebol y Senedd a graffodd ar gyllideb gyfan yr Undeb Ewropeaidd a dal y Comisiwn i gyfrif. Daeth yn gyfarwydd â phob agwedd ar y PAC.

Yna aeth ymlaen i gyflawni nifer o rolau anweithredol, ymgynghori a barnwrol. Fel Cwnsler Strategaeth Ewropeaidd, cyfarwyddodd brosiectau ar gyfer y Comisiwn Cefn Gwlad a'r Comisiwn Cymunedau Gwledig, gan gwmpasu pynciau fel plismona gwledig a strategaeth ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd gwledig. Mae ei brif gleientiaid, trwy gyswllt ag ymgynghoriaeth o'r Swistir, wedi bod yn gwmnïau byd-eang ym maes gwasanaethau ariannol, gweithgynhyrchu ac adeiladu.

Dechreuodd Peter weithio yn y maes datganoli yng Nghymru trwy ddrafftio Rheolau'r Cynulliad fel Comisiynydd Rheolau Sefydlog; yna fel Aelod o Gomisiwn Richard yn argymell pwerau deddfwriaethol sylfaenol a system etholiadol newydd; ac yn ddiweddarach daeth yn Gadeirydd Cymru Yfory, yn hyrwyddo datblygiad democrataidd yng Nghymru.

Yn ei yrfa gyfreithiol gynnar, cynhaliodd Peter erlyniadau hylendid bwyd ac achosion eraill o ddiogelu defnyddwyr. Ar ôl bod yn Aelod Seneddol Ewrop, dychwelodd at y gyfraith fel Barnwr Cyflogaeth rhan-amser am 12 mlynedd, gan eistedd mewn lleoliadau ledled Cymru.

Fel aelod anweithredol, mae gan Peter brofiad o gadeirio Byrddau a'u Pwyllgorau.  Bu'r rolau hyn mewn archwilio cyhoeddus, dwy ymddiriedolaeth y GIG, Prifysgol a chwmni yn ardystio safonau ansawdd. Yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, daeth yn Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol. Yn Swyddfa Archwilio Cymru, roedd yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol. Ef oedd Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Swyddfa Archwilio Jersey o 2016 tan fis Mawrth 2021.

## Buddiannau Personol

- Dim

## Ymgyngoriaethau a/neu gyflogaeth uniongyrchol

- Fel Cwnsler Strategaeth Ewropeaidd (hunangyflogedig), rwy'n cynghori ar faterion strategol sy'n gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd.

## Rolau di-dâl

- Dim

## Gwaith am ffi

- Dim

## Cyfranddaliadau

- Dim

## Clybiau a sefydliadau eraill

- Aelod o Chatham House
- Sefydliad Gwasanaethau Unedig Brenhinol (*Royal United Services Institute* neu RUSI)
- Sefydliad Materion Cymreig
- Cymrodorian
- Cymru’r Gyfraith

## Buddiannau personol eraill

- Dim

## Buddiannau nad ydynt yn rhai personol

- Dim

## Cymrodoriaethau

- Dim

## Cymorth anuniongyrchol

- Dim

## Ymddiriedolaethau

- Dim

## Tir ac eiddo

- Dim

## Penodiadau cyhoeddus eraill

- Dim

## Buddiannau eraill nad ydynt yn rhai personol

- Dim